

Y wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb Ewropeaidd:

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol | 20 Mawrth 2017
External Affairs and Additional Legislation Committee | 20 March 2017

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy'n berthnasol i Gymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; ar lefel yr UE; ar lefel y DU; yr Alban ac Iwerddon. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 a 15 Mawrth, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach lle y mae gwybodaeth ar gael ar adeg y drafftio terfynol.

2. Datblygiadau yng Nghymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yw prif bwylgor y Cynulliad ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau'r Pwyllgorau sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Pwyllgor wedi cwblhau ymchwiliad ar y Goblygiadau Posibl i Gymru wrth Adael yr Undeb Ewropeaidd.

Ar 27 Mawrth bydd y Pwyllgor yn cynnal cynhadledd drwy'r dydd, sef 'Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Beth nesaf i Gymru?'. Bydd y gynhadledd yn dwyn sefydliadau a chyrff allweddol o bob rhan o Gymru ynghyd i drafod blaenoriaethau ar gyfer Cymru yn nhrefnadaethau'r DU ar adael yr UE.

Dyma sesiynau mwyaf diweddar ymchwiliad y Pwyllgor:

- 6 a 13 Mawrth: Parhaodd y Pwyllgor i gymryd tystiolaeth ar gyfer yr [ymchwiliad i bolisi rhanbarthol](#).

3 Mawrth: [Deddfwrfeydd datganoledig yn cytuno ar feysydd o bryder cyffredin o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd](#). Cynhaliwyd sgrysiâu ar y cyd yn Senedd yr Alban rhwng aelodau pwyllgorau Ewropeaidd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Llundain. Nododd y gwleidyddion feysydd o bryder cyffredin ar faterion yn cynnwys: pobl yn symud yn rhydd; disodli arian Ewropeaidd, a chysylltiadau rhynglywodraethol. Amlygodd

David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol fod y trafodaethau yn gam pwysig o ran archwilio meysydd o gonsensws a thir cyffredin rhwng y sefydliadau ar adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae gwybodaeth reolaidd am waith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i'w gweld ar flog y Cynulliad: <https://blogcynulliad.com/tag/ue/>.

Cyhoeddir blogiau'r Gwasanaeth Ymchwil ar [Pigion](#). Y blog diweddaraf ar adael yr Undeb Ewropeaidd yw [Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Safbwyntiau Cymru a San Steffan](#), sy'n rhoi crynodeb o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor gan Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru a David Jones, y Gweinidog Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd.

Arall

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn cynnal ymchwiliad i [Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru](#), ynghyd ag ymchwiliad i [Ddyfodol Polisiâu Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yng Nghymru](#).

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau newydd gau ei ymgynghoriad ar [Sut beth fydd hawliau dynol yng Nghymru yn dilyn Brexit?](#)

Mae 'goblygiadau gadael yr UE ar y gweithlu meddygol' wedi'i gynnwys yn benodol yn y cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad presennol y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar [recrwtio meddygol](#). Bydd yr ymchwiliad hwn yn parhau i gasglu tystiolaeth lafar drwy gydol mis Mawrth.

Dadleuon yn y Cyfarfod Llawn

22 Mawrth: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y goblygiadau i Gymru o adael yr Undeb Ewropeaidd.

Llywodraeth Cymru

6 Mawrth: [Buddsoddiad newydd yr UE gwerth €7 miliwn yn niwydiant pysgodfeydd Cymru ac Iwerddon](#).

10 Mawrth: [Hwb gwerth €6.7 miliwn yr UE i wella dyfroedd ymdrochi yng Nghymru ac Iwerddon](#).

10 Mawrth: [Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru](#) i adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y goblygiadau i Gymru o adael yr Undeb Ewropeaidd.

13 Mawrth: [Cymeradwyaeth yr UE yn datgloi hwb ariannol mawr i Gaernarfon](#).

Newyddion

6 Mawrth: [Undeb Amaethwyr Cymru yn pwysleisio'r angen am Fframwaith Amaethyddol y DU yng Nghynhadledd Plaid Cymru](#).

6 Mawrth: [Undeb Amaethwyr Cymru yn annog Gweinidogion Datganoledig i weithio'n agos i ddatblygu Fframwaith y DU.](#)

7 Mawrth: [Datganiad CLA ar adroddiad cyntaf y Pwyllgor Masnach Ryngwladol.](#)

8 Mawrth: [Ffermio yn hanfodol i economi'r DU](#) (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr).

9 Mawrth: [Aelodau CGGC yn rhoi rheithfarn ar adael yr Undeb Ewropeaidd](#) – mae tri chwarter yr ymatebwyr yn 'teimlo'n negyddol i raddau helaeth'.

3. Y diweddaraaf o'r UE

Y Cyngor Ewropeaidd

7 Mawrth: [Fframwaith cyllideb yr UE ar gyfer 2014–2020](#): Y Cyngor yn cytuno i roi mwy o ffocws ar flaenoriaethau newydd.

8 Mawrth: Trafododd [Uwchgynhadledd Gymdeithasol Tridarn y Gwanwyn](#) "Dyfodol Ewrop: siartio'r hynt tuag at dwf, cyflogaeth a thegwch." [Sylwadau gan yr Arlywydd Donald Tusk](#) yn dilyn yr uwchgynhadledd gymdeithasol tridarn.

9–10 Mawrth: [Y Cyngor Ewropeaidd](#):

[Arlywydd Senedd Ewrop – Tajani: "Mae angen i Ewrop newid, nid cael ei gwanhau".](#)

[Donald Tusk wedi'i ail-ethol yn arlywydd y Cyngor Ewropeaidd](#), hyd at 30 Tachwedd 2019.

[Sylwadau gan Arlywydd Donald Tusk ar y Cyngor Ewropeaidd](#), cyfarfod 9 Mawrth 2017.

[Trafododd y Cyngor](#) swyddi, twf a chystadleurwydd, diogelwch ac amddiffyn, mewn fudo a'r Balcanau Gorllewinol. Ni chafodd y casgliadau eu mabwysiadu'n ffurfiol.

[Sylwadau gan yr Arlywydd Donald Tusk ar ôl y cyfarfod anffurfiol o'r 27](#) o benaethiaid gwladwriaeth neu lywodraeth

Y Comisiwn Ewropeaidd

1 Mawrth: Cyflwynodd yr Arlywydd Juncker, Arlywydd y Comisiwn ei [Bapur Gwyn ar yr UE yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd](#).

Senedd Ewrop

1 Mawrth: [Dyfodol yr UE](#): Aelodau o Senedd Ewrop yn trafod pum senario a amlinellwyd gan Jean-Claude Juncker.

1 Mawrth: [Aelodau o Senedd Ewrop yn ymchwilio i flaenoriaethau ar gyfer y Cyngor Ewropeaidd sydd i ddod](#).

[Rhaid i'r DU ufuddhau i ddeddfau pobl yn symud yn rhydd yn yr UE hyd nes iddi adael yr UE, yn ôl Aelodau o Senedd Ewrop](#).

[Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Y Senedd yn edrych i mewn i hawliau pobl o Ewrop sy'n byw yn y DU.](#)

2 Mawrth: [Arlywydd Senedd Ewrop – Tajani: "Bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn her arbennig i Iwerddon a'i phobl".](#)

14 Mawrth: [Cyhoeddwyd sancsiynau o ddifrifoldeb digyffelyb](#) gan Antonio Tajani, Arlywydd Senedd Ewrop ddydd Mawrth, yn erbyn yr ASE Pwylaidd Janusz Korwin-Mikke am ei sylwadau annerbyniol yn erbyn menywod yn ystod dadl y Cyfarfod Llawn ar y "bwllch cyflog rhwng y rhywiau" ar 1 Mawrth.

[Y wybodaeth ddiweddaraf am lenyddiaeth ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd – Mawrth 2017](#) – Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop

Newyddion Ewropeaidd

[Ombwdsmon yn annog tryloywder priodol o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd](#) – Ombwdsmon Ewropeaidd, 2 Mawrth

4. Datblygiadau yn y DU

16 Mawrth: [Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fil yr Undeb Ewropeaidd \(Hysbysiad i Adael\).](#)

Llywodraeth y DU

[Gwybodaeth am y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd \(DExEU – y wybodaeth ddiweddaraf ar 1 Mawrth\)](#)

2 Mawrth: [Pennod newydd yn y gydberthynas rhwng y DU a Denmarc](#) – erthygl David Davis yn Politiken (Denmarc).

2 Mawrth: [Deialog amddiffyn ar adael yr UE.](#)

3 Mawrth: [Cynnal ein cysylltiadau agos â Slofacia](#) – erthygl David Davis yn Pravda (Slofacia).

3 Mawrth: [Gweinidogion yn y ddeialog ddiweddaraf â chwmnïau gwasanaethau ariannol.](#)

9 Mawrth: [Y Cyngor Ewropeaidd – Mawrth 2017: Datganiad i'r wasg y Prif Weinidog.](#)

13 Mawrth: Cyfarfod y Prif Weinidog â [Phrif Weinidog Muscat Malta.](#)

14 Mawrth: [Datganiad Tŷ'r Cyffredin y Prif Weinidog ar y Cyngor Ewropeaidd.](#)

Fforwm EC–UK – 6 Mawrth

Cynhaliwyd y fforwm EC–UK diweddaraf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Mawrth 2017. Mae'r fforwm yn dwyn ynghyd Cadeiryddion y pwyllgorau Ewropeaidd perthnasol o bob rhan o'r DU. Mynychodd David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Darparodd Cadeiryddion o bob cwr o'r DU y newyddion diweddaraf am waith eu pwyllgorau a thrafod meysydd posibl ar gyfer cydweithredu.

Tŷ'r Cyffredin

9 Mawrth: Cafodd [cwestiynau llafar ar adael yr Undeb Ewropeaidd](#) eu hateb gan David Davis yr Ysgrifennydd Gwladol, Robin Walker yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, a David Jones y Gweinidog Gwladol.

13 Mawrth: Dadl ohirio ar [adael yr UE: Cynhyrchwyr dofednod](#).

13 Mawrth: Dadl ar [Fil yr Undeb Ewropeaidd \(Hysbysiad i Adael\)](#). Gwrthododd Tŷ'r Cyffredin welliannau'r Arglwyddi.

14 Mawrth: [Datganiad y Prif Weinidog ar y Cyngor Ewropeaidd](#), a chwestiynau.

28 Chwefror: Ystyriodd y Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol [effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar ddiwydiant niwclear y DU](#) a hyder buddsoddwyr ehangach yn y sector ynni.

28 Chwefror: Archwiliodd y Pwyllgor Iechyd [effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol](#) ac ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd ar gyfer alltudion Prydeinig a dinasyddion yr UE yn y DU.

1 Mawrth: Clywodd y Pwyllgor Gweithdrefnau [dystiolaeth gan gyfreithwyr Academaidd ar bwerau dirprwyedig a'r 'Bil Diddymu Mawr'](#).

2 Mawrth: Ymwelodd y Pwyllgor Gadael yr Undeb Ewropeaidd ag Abertawe i glywed tystiolaeth ar [risgiau a chyfleoedd gadael yr Undeb Ewropeaidd i Gymru](#).

7 Mawrth: [Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar brifysgolion yn y Gogledd a'r Alban](#) wedi'i archwilio ym Mhrifysgol Northumbria gan y Pwyllgor Addysg.

7 Mawrth: Clywodd [Pwyllgor Gadael yr Undeb Ewropeaidd gan Mark Drakeford AC](#), Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

7 Mawrth: Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol ei drydydd gwrandawriad cyhoeddus, a'r olaf, yn archwilio tystiolaeth a thystion ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i [Ddyfodol Cemegau Rheoleiddio ar ôl Refferendwm yr UE](#).

7 Mawrth: Holodd y Pwyllgor Materion Cartref [Gyfarwyddwr Europol ar faterion plismona a diogelwch](#).

8 Mawrth: Cyfarfu'r Pwyllgor Craffu Ewropeaidd a Phwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a chynhaliwyd [sesiwn dystiolaeth ar y cyd gyda George Eustice AS, y Gweinidog Gwladol](#) dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, ar oblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Pysgodfeydd ac Amaethyddiaeth.

8 Mawrth: Cynhaliodd y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau sesiwn dystiolaeth ar [adael yr Undeb Ewropeaidd a'r farchnad lafur](#).

10 Mawrth: [Sut y mae trafodaethau TTIP wedi llywio trafodaethau masnach rhwng y DU a'r UDA yn y dyfodol?](#) – y Pwyllgor Masnach Ryngwladol yn dechrau cymryd tystiolaeth.

14 Mawrth: Os yw'r DU am barhau i fasnachu gyda'r UE neu gydweithredu ar orfodi cyfraith ar ôl iddi adael, yna [mae angen mecanweithiau ar waith ymlaen llaw ar gyfer trosglwyddo data trydydd gwledydd](#), yn ôl y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd yn ei adroddiad wythnosol ar ddeddfwriaethau newydd yr UE.

14 Mawrth: Trafododd y Pwyllgor Gadael yr Undeb Ewropeaidd amcanion negodi'r DU ar gyfer gadael yr UE gyda [Sadiq Khan, Maer Llundain](#), ac ar 15 Mawrth gyda [David Davis AS, yr Ysgrifennydd Gwladol](#) ac Ysgrifennydd Parhaol yr adran.

15 Mawrth: Cynhaliodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ei sesiwn dystiolaeth olaf fel rhan o'i ymchwiliad i [Fwydo'r Genedl: cyfyngiadau llafur](#). Holwyd George Eustice AS, y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Robert Goodwill AS, y Gweinidog dros Fewnfudo, y Swyddfa Gartref.

1 Mawrth: Cyhoeddodd y Pwyllgor Gadael yr Undeb Ewropeaidd ei adroddiad [Amcanion trafod y Llywodraeth: hawliau dinasyddion y DU a'r UE](#). Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol y dylai'r Llywodraeth bellach wneud penderfyniad unochrog i ddiogelu hawliau dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU.

7 Mawrth: [Mynediad i farchnad ddarlledu Ewrop ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd](#) – holwyd gan nodyn y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd.

7 Mawrth: Cyhoeddodd y Pwyllgor Masnach Ryngwladol ei adroddiad [opsiynau masnach yn y DU y tu hwnt i 2019](#). Mae'r adroddiad yn trafod ail-ymuno â Chymdeithas Masnach Rydd Ewrop, Cytundeb Masnach Rydd â'r UE, 'dim bargaen' – telerau Sefydliad Masnach y Byd gyda'r UE, Cytundebau Masnach Rydd â gweddill y byd a sefydlu safle'r DU yn Sefydliad Masnach y Byd.

10 Mawrth: Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi cyhoeddi ei ganfyddiadau cychwynnol fel rhan o'r ymchwiliad i'r [Goblygiadau i Gymru yn sgil canlyniad refferendwm yr UE](#). Dywedodd David TC Davies AS, y Cadeirydd, "Byddwn [cyn bo hir yn lansio ymchwiliad i'r effaith ar amaethyddiaeth](#), yn dilyn pryderon a fynegwyd gan fynychwyr – pa gymorth a ddarparwyd gan yr UE a pha gyfleoedd sydd i ddarparu cymorth newydd i ffermwyr Cymru ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd?".

12 Mawrth: Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Tramor ei adroddiad [Trafodaethau ynghylch Erthygl 50: Goblygiadau 'dim bargaen'](#), sy'n dweud y byddai'n ['ddiffeithwch dyletswydd' i fethu â chynllunio ar gyfer 'dim bargaen'](#).

Tŷ'r Arglwyddi

Mae Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi a'i chwe is-bwyllgor yn cynnal "[cyfres gydgysylltiedig o ymholiadau](#) ar y materion allweddol a fydd yn codi yn y trafodaethau sydd i ddod ar adael yr Undeb Ewropeaidd".

1 Mawrth: Cafodd cyfraniad yr UE a dinasyddion y tu allan i'r UE ei grybwyll mewn [cwestiynau am fewnfudo](#), a atebwyd gan gyn-Aelod Cynulliad, bellach Arglwydd Bourne Aberystwyth.

1 Mawrth: [Cyfnod Pwyllgor Bil yr Undeb Ewropeaidd \(Hysbysiad i Adael\)](#). Pleidleisiodd cyfoedion i sicrhau hawliau parhaus dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU.

2 Mawrth: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Undeb Ewropeaidd [Gadael yr Undeb Ewropeaidd: yr opsiynau ar gyfer masnach](#).

7 Mawrth: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Hysbysiad i Adael): [Y cyfnod adrodd: Parhad: Trydydd Darlleniad, pasiwyd y Bil](#).

7 Mawrth: Cwestiynau ynghylch [yr Undeb Ewropeaidd: Mudo a hawliau](#).

13 Mawrth: Cwestiynau ynghylch [gadael yr Undeb Ewropeaidd: Y Gymanwlad, Masnach a Mudo](#).

13 Mawrth: [Bil yr Undeb Ewropeaidd \(Hysbysiad i Adael\)](#) – Ni wnaeth yr Arglwyddi adfer eu gwelliannau a wrthodwyd gan Dŷ'r Cyffredin.

1 Mawrth: Clywodd Is-bwyllgor Materion Cartref yr UE dystiolaeth gan gyfreithwyr ac academyddion ar [Gyfarwyddeb a Rheoliad diogelu data yr UE](#), Tarian Preifatrwydd yr UE-UDA a Chytundeb Ymbarél rhwng yr UE a'r UDA. Ar 8 Mawrth, [rhoddodd Comisiynydd Gwybodaeth y DU dystiolaeth](#).

1 Mawrth: Holodd Is-bwyllgor yr Amgylchedd ac Ynni yr UE Brif Swyddog Milfeddygol y DU ynghylch [goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid](#).

3 Mawrth: Mae Is-bwyllgor Materion Allanol yr UE ac Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr UE [wedi cael ymateb](#) gan yr Arglwydd Bridges o Headley MBE, Is-ysgrifennydd Gwladol, Adran Gadael yr UE, a'r Arglwydd Price CVO, y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach, yr Adran Masnach Ryngwladol, i'w hadroddiad, Gadael yr Undeb Ewropeaidd: yr opsiynau ar gyfer masnach, a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2016.

6 Mawrth: Clywodd Pwyllgor Dethol yr UE gan [ddau gyfoed arbenigol yr Alban](#), fel rhan o'i ymchwiliad parhaus i adael yr Undeb Ewropeaidd: datganoli.

8 Mawrth: Clywodd y Pwyllgor Materion Economaidd dystiolaeth am [effaith o ran mewnfudo yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd ar wahanol sectorau o'r economi](#).

8 Mawrth: Holodd Is-bwyllgor yr Amgylchedd ac Ynni yr UE George Eustace AS, y Gweinidog dros Amaethyddiaeth ynghylch [polisi amaethyddiaeth y DU a'r gydberthynas â'r UE yn y dyfodol](#) yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd.

13 Mawrth: Trafodwyd [effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar Gymru](#) gan Bwyllgor yr UE, gyda'r Arglwyddi Hain, Hunt a Wigley, wedi'i ddilyn gan Mark Drakeford AC.

14 Mawrth: Clywodd y Pwyllgor Materion Economaidd dystiolaeth gan Robert Good AS, y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo ar gyfer ei ymchwiliad i [Adael yr Undeb Ewropeaidd a'r Farchnad Lafur](#).

1 Mawrth: Cyhoeddodd Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd ei adroddiad [Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Gibraltar](#).

4 Mawrth: Cyhoeddodd Is-bwyllgor Materion Ariannol yr UE ei adroddiad [Gadael yr Undeb Ewropeaidd a chyllideb yr UE](#).

6 Mawrth: Cyhoeddodd yr Is-bwyllgor Materion Cartref yr UE ei adroddiad [Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Symud pobl rhwng y DU a'r UE](#).

14 Mawrth: [Mae tollau gweinyddol ac oedi yn bryder difrifol i gwmnïau ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd](#) – cyhoeddodd Is-bwyllgor Materion Allanol yr UE ei adroddiad ar [oblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd i fasnach y DU mewn nwyddau](#).

5. Yr Alban

Senedd yr Alban

5 Mawrth: Cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Chysylltiadau Allanol ei adroddiad [Penderfynu ar gydberthynas yr Alban gyda'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol](#). Mae'r Pwyllgor yn galw am [ateb pwrpasol ar adael yr Undeb Ewropeaidd](#).

15 Mawrth: [Dadl ar adroddiadau'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Chysylltiadau Allanol](#): Canlyniad refferendwm yr UE a'i oblygiadau i'r Alban: Tystiolaeth gychwynol; gadael yr Undeb Ewropeaidd: Beth y mae'r Alban yn ei feddwl: crynodeb o'r dystiolaeth a materion sy'n dod i'r amlwg; Ymfudo'r UE a Hawliau Dinasyddion yr UE; Penderfynu ar gydberthynas yr Alban gyda'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol.

Llywodraeth yr Alban

13 Mawrth: [Rhaid i'r Alban gael dewis dros ei dyfodol](#) – Prif Weinidog Cymru yn amlinellu cynllun ar gyfer refferendwm yn wyneb sefyllfa galed ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

14 Mawrth: [Rhaid i'r refferendwm 'gael ei wneud yn yr Alban'](#) – y Cabinet yn cytuno mai Senedd yr Alban ddylai benderfynu ar y bleidlais.

6. Gogledd Iwerddon

Cynulliad Gogledd Iwerddon

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cynulliad newydd ar 13 Mawrth.

7. Y cysylltiadau rhwng y DU ac Iwerddon

2 Mawrth: [Ymwelodd y Taoiseach â Brwsel fel rhan o raglen o ymgysylltu strategol o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd.](#)

10 Mawrth: [Cyfarfu Taoiseach Enda Kenny â Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru.](#)

[Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Y DU ac Iwerddon](#) (Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, 13 Mawrth)

8. Adroddiadau eraill a gyhoeddwyd

Tŷ'r Cyffredin

- [Geirfa gadael yr Undeb Ewropeaidd](#)
- [Bil yr Undeb Ewropeaidd \(Hysbysiad i Adael\): dadansoddiad o welliannau'r Arglwyddi](#)

Arall

- [How to \(Br\)exit: A guide for decision-makers](#) - Cyfeillion Ewrop
- [Deddfwriaeth Ddirprwyedig a'r Senedd yn Sesiwn 2015-16](#) - Defnyddio pwerau Harri'r VIII - Cymdeithas Hansard
- [The great British trade off](#) - Th UK in a Changing Europe
- [Busnesau'r UDA yn rhybuddio'r DU ynghylch colli mynediad i farchnad sengl yr UE](#) - Guardian, 8 Mawrth